**Cofnodion o gyfarfod Cyngore Cymuned Llanrug a gynhaliwyd nos Fawrth 16 o Orffennaf 2024 am 19:00 drwy Zoom.**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Rhys Parry (Cadeirydd), Avril Jones (Is-gadeirydd), Ann Lawton, Richard Robinson, Alan Pritchard, Cemlyn Jones, Gwynedd Williams, Berwyn Parry Jones, Beca Brown.

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Hefin Jones, Philip Roberts

**Clerc:** Meirion Jones

**1333. I dderbyn croeso gan y Cadeirydd**

Estynnwyd croeso cynnes i bawb i'e cyfarfod a diolchodd y Cadeirydd am bresenoldeb yr aelodau

**1334 . Derbyn ymddiheuriadau.**

Derbyniwyd yr ymddiheuriadau fela nodwyd uchod

**1335. Datgan buddiant personol.**

Rhain i'w cofnodi fel yn briodol

**1336. I dderbyn cofnodion cyfarfod 18 Mehefin 2024**

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd

**1337. Unrhyw fater yn codi o'r cofnodion**

Rhai ar agenda cyfarfod heno

**1338. I dderbyn adroddiad ar y cyd oddi wrth y Cynghorwyr Beca Brown a Berwyn Parry Jones sef aelodau dros Llanrug a Cwm y Glo ar Gyngor Gwynedd**

**1339. I dderbyn adroddiad gan Gadeirydd Pwyllgor Hamdden a Mwynderau.**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Avril Jones (Cadeirydd y pwyllgor) ei bod gyda Cynghorydd Gwynedd Williams (Is-gadeirydd i pwyllgor) wedi bod gyda'r contractwr yn mynd drwy asesiad risg i caeau chwarae. Nodwyd fod ein contractwr yn gallu gwneud y rhan fwyaf o'r gwaith ond fod gwaith eraill angen contractwr arbennig.

Adroddwyd fod pris wedi ei dderbyn ar gyfer mainc plastig wedi ail-gylchu ynghyd a siglen babanod.

Adroddwyd fod angen bin newydd yn cae chwarae Pwll Moelyn

Nodwyd fod angen cario allan asesiad risg ar offer yn y gampfa allanol yn Cwm y Glo a bydd y cwmni a'i gosodwyd yn cario allan yr asesiad yma. Yn unol a'r drefn.

Mae'r pwyllgor wedi edrych ar ddrafftio rheolau ar gyfer y caeau chwarae a diolch i'r Cyngiirydd Gwynedd Williams am baratoi fersiwn drafft.

Mae coed newydd wedi ei derbyn er cof am y diweddar Gynghorydd Brian Jones a Charles Jones.

Adroddwyd fod y cyn aelod, Meirwen Lloyd wedi cael coeden rhosod fel cydnabyddiaeth o'i mewnbwn a'i gwaith ar y cyngor cymuned.

Ffens cae chware Pwll Moelyn angen ei adnewyddu – pris wedi ei geisio.

Fod rota newydd wedi si chreu ar gyfer archwilio offer y gampfa

Trefniadau ar y gweill i gynnal sesiwn hyfforddi ar gyfer y diffibriliwr. Gobeithir cynnal dwy sesiwn, un yn y prynhawn a llall gyda'r nos yn y Sefydliad Coffa.

Trefniadau Nadolig i barhau ar gyfer Nadolig 2024 gyda Cyngor Gwynedd yn gosod y goeden a'r goleuadau.

Dim penderfyniad wedi wneud eto ar y gystadleuaeth Nadolig o addurno tŷ.

Y trefniadau o gasglu sbwriel ddim yn gweithio, cydnabod mae nifer yn gweithio yn ystod yr wythnos a methu casglu sbwriel ar gyfnodau penodol. Felly penderfynwyd i beidio a'i cynnal.

Cytunwyd ar nod ac amcanion y pwyllgor ar gyfer 2024 / 2025 fel a ganlyn

a) Parhau a'r trefniadau ar gyfer cystadleuaeth Nadolig 2023
b) Cario allan asesiadau risg ar y meysydd chwarae
c) Cynnal sesiynau hyfforddi ar y diffibriliwr
d) Archwilio ein llwybrau cyhoeddus
e) Creu rheolau ar gyfer ein caeau chwarae
f) Creu mapiau ar gyfer yr ardal yn cynnwys gwybodaeth am yr ardal, lleoliadau biniau, diffibriliwr ayyb
g) Offer ychwanegol ar gyfer y caeau chwarae
h) Cysgodfa Bws ger Glyntwrog
i) Adnewyddu ffens Pwll Moelyn
j) Cario allan y gwaith fel a nodwyd yn yr asesiad risg
k) Unrhyw fater arall yn unol â doethineb y pwyllgor

Cyfarfod nesaf o'r pwyllgor i'w gynnal 10fed o Fedi 2024, gyda'r lleoliad i'w gadarnhau yn ddibynnol ar y rhagolygon tywydd

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**1340. I dderbyn adroddiad gan Gadeirydd Pwyllgor Bwyd a Llesiant**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones, Cadeirydd y pwyllgor nad oedd y pwyllgor wedi cyfarfod ers y cyngor diwethaf. Fodd bynnag adroddwyd fod y Cadeirydd gyda'r clerc wedi cyfarfod a swyddog o Adra i holi am grantiau ar gyfer y cynllun bwyd a teg i'w dweud fod y swyddog yn mynd i helpu gyda'r cynllun.

Nodwyd fod y cynllun bwyd yn mynd yn ei flaen yn eithaf sefydlog gyda dim llawer o newidiadau

O ran y grant disgresiwn, adroddwyd fod pawb sydd yn cael pecynnau bwyd wedi cael manylion am y grant disgresiwn beth amser yn ôl bellach ac mai dim ond un cais a dderbyniwyd a bu'r cais yma yn llwyddiannus. Penderfynwyd i anfon ffurflenni cais arall allan erbyn y dosbarthu bwyd yr wythnos yma gyda amlen gyda stamp i anfon unrhyw gais yn ôl i'r clerc.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**1341. I dderbyn adroddiad gan Gadeirydd Pwyllgor y Fynwent**

Yn absenoldeb cadeirydd y pwyllgor adroddwyd gan y Cynghorydd Avril Jones (Is-gadeirydd) fod y pwyllgor wedi cyfarfod ar 25 ain o Fehefin 2024 ac eu bod yn cyfarfod eto ar 23 o Orffennaf i drafod gwaith sydd angen ei wneud yn y fynwent.

Adroddwyd fod y pwyllgor wedi edrych ar reolau'r fynwent a penderfynwyd nad oeddynt angen eu haddasu ar hyn o bryd.

Adroddwyd fod y gwaith ar tua 20 o gofebion wedi eu cario allan gan y contractwr

Penderfynwyd paratoi tendr ar gyfer gwaith ar wal y fynwent

Adroddwyd fod canlyniad cystadleuaeth Mynwent Y Fflwyddyn wedi dod ac fod y sgôr yn uwch na'r llynedd sydd yn galonogol. Bydd swyddog yn cysylltu i wirio ein cais maes o law a bryd hynny byddwn yn gwybod ym mha safle y byddwn.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad a llongyfarch t pwyllgor am eu gwaith caled yn ymwneud a'r fynwent ac ei gadw i'r safon.

**1342. I dderbyn adroddiad gan Gadeirydd Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Avril Jones (cadeirydd y pwyllgor) fod y pwyllgor wedi cyfarfod ar y 9fed o Orffennaf 2024. Ymysg y materion a drafodwyd oedd

- cyllideb ar gyfer gwariant ar y caeau chwarae,
- ystyried offer ychwanegol ar gyfer y caeau chwarae
- adolygwyd y gyllideb ac fe'i addaswyd fel yn briodol

- penderfynwyd adolygu cynnwys ein gwefan ac fod y Cynghorwyr Rhys Parry ac Ann Lawton gyda'r Clerc am edrych beth sydd angen ei dynnu ffwrdd ac ychwanegu gwybodaeth arall,
- Yr aelodau i edrych ar ein polisi grant (ar gyfer mudiadau), oherwydd tydi hwn ddim wedi ei adolygu ers peth amser.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**1343. Ceisiadau Cynllunio – am fwy o fanylion am y ceisiadau yma, dilynwch y linc yma ble gellir chwilio am y cais drwy ddyfynnu 'Rhif y cais'. https://amg.gwynedd.llyw.cymru/planning/index.html?fa=search**

Dim

Daeth y cyfarfod i ben am 19:35

Arwyddwyd

Cadeirydd Dyddiad